



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella Iechyd y Geg i Bobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Cyflawni'r rhaglen Gwên am Byth dros y cyfnod
o 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018

Gwella Iechyd y Geg i Bobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Cyflawni'r rhaglen Gwên am Byth dros y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018

Crynodeb Gweithredol

- Targedwyd 34.9% o gartrefi gofal i gymryd rhan yn y rhaglen.
- Targedwyd 229 o gartrefi o gymharu â 113 a dargedwyd y llynedd.
- O'r cartrefi gofal a dargedwyd mae 170 yn cymryd rhan yn llawn ac mae 55 yn cymryd rhan yn rhannol. Mae 4 cartref heb ddechrau cymryd rhan eto.
- Mae gan 3,211 o breswylwyr gynllun gofal y geg sy'n cael ei weithredu.
- Mae tua 7 o staff WTE yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC) i gyflawni'r rhaglen.
- Mae rhai o'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol wedi canfod bod ehangu'r rhaglen heb staffio ychwanegol yn her.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan staff cartrefi gofal, preswylwyr, gofalwyr a staff y GDC sy'n darparu'r rhaglen.
- Mae staff cartrefi gofal yn ymgysylltu â'r rhaglen, ac mae ganddynt farn fwy cadarnhaol ynghylch pwysigrwydd a gwerth gofal da am y geg.
- Mae yna enghreifftiau o ymarfer arloesol, er bod rhwystrau i ddarparu'r rhaglen yn parhau.
- Mae'r GDC wedi nodi nifer o gamau i'w cymryd i hyrwyddo cynnydd y rhaglen ymhellach.

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2015/001 (y Cylchlythyr) ym mis Chwefror 2015 - *Gwella Iechyd y Geg i Bobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru*. Roedd y Cylchlythyr yn cynnwys cyfanswm o £249,750 o gyllid bob blwyddyn i'w rannu ar draws 7 bwrdd iechyd. Gellir gweld y Cylchlythyr drwy'r ddolen hon:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150210whc001en.pdf>

1.2 Nod allweddol y rhaglen yw gwella hylendid y geg a gofal y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal drwy ddatblygu dull cyson ar gyfer Gymru gyfan. Yn y cyd-destun hwn mae 'cartref gofal' yn cynnwys cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl i bobl hŷn - gan gynnwys y rheiny sydd ar gyfer pobl sy'n byw â dementia.

1.3 Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol ar gyflawni'r rhaglen. Mae Atodiad 2 yn cynnwys gwybodaeth gefndir ychwanegol a manylion am ddatblygiad y rhaglen.

2. Casglu data a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma

2.1 Cyflwynodd yr holl Wasanaethau Deintyddol Cymunedol yng Nghymru ddata ac adroddiad ansoddol ysgrifenedig cryno ar weithgaredd y flwyddyn i Uned Gwella Iechyd y Geg Cymru Prifysgol Caerdydd (WOHIU).

2.2 Mae cyfanswm nifer y cartrefi gofal wedi newid o'r llinell sylfaenol wreiddiol o 697 ym mis Ebrill 2015 i 673 yn 2016/17 a 657 yn 2017/18.

i) Dangosir yr holl ddata a goladwyd yn Atodiad 1. Mae'r crynodeb isod yn cynnwys ffigurau'r llynedd mewn cromfachau lle mae modd cymharu tebyg gyda'i debyg. Mae'n dangos cynnydd cyson ym mhob maes:

- Targedwyd 34.9% (16.8%) o gartrefi gofal i gymryd rhan yn y rhaglen - *capasiti staff yw'r prif ffactor sy'n cyfyngu ar nifer y cartrefi sydd wedi'u targedu.*
- Targedwyd 229 o gartrefi o gymharu â 113 o gartrefi y llynedd.
- O'r cartrefi gofal a dargedwyd;
 - Mae 170 (67) yn cymryd rhan lawn ac mae 55 (43) yn cymryd rhan yn rhannol. Mae 4 cartref heb ddechrau cymryd rhan eto.
 - Mae gan 208 bolisi gofal y geg cyfredol.
 - Gall 210 nodi gwasanaethau deintyddol lleol sydd ar gael i'w preswylwyr.
 - Darparwyd 489 (290) o sesiynau hyfforddi gan staff y GDC i 3,510 (1,892) o staff cartrefi gofal.
 - Mae 487 (209) o hyrwyddwyr gofal y geg wedi cael eu hyfforddi gan y gwasanaeth deintyddol cymunedol, a bellach mae nifer o'r rhain yn hyfforddi staff yn y cartrefi gofal lle maent yn gweithio.
 - Mae 5,983 o breswylwyr yn byw yn y 170 o gartrefi sydd yn cymryd rhan lawn. O'r rhain, mae cyfanswm o 3,176 (53%) wedi cael asesiad ar y geg. Y llynedd cafodd 1,308 o breswylwyr asesiadau ar y geg.
 - Mae gan 3,211 (1,349) o breswylwyr gynllun gofal y geg sy'n cael ei gyflawni.
 - Mae 16 o'r cartrefi sy'n cymryd rhan wedi cael arolygiad allanol neu adolygiad sydd wedi amlygu gofal y geg da neu ragorol, ond mae 3 adolygiad allanol wedi tynnu sylw at ofal y geg annigonol. Mae'r cartrefi gofal lle y nodwyd bod gofal y geg yn annigonol yn cael cymorth ychwanegol gan y gwasanaeth deintyddol cymunedol, a cheisir sicrwydd gan aseswyr nyrsio lleol.

ii) Staff a gyflogwyd gan ddefnyddio cyllid WHC/2015/001

Bwrdd Iechyd	Staff a gyflogwyd gan ddefnyddio cyllid WHC/2015/001 (WTE)*	Staff Ychwanegol y GDC yn cael eu cyllido gan y Bwrdd Iechyd (WTE)*
Abertawe Bro Morgannwg	1.0	Dim
Aneurin Bevan	1.0	0.6
Betsi Cadwaladr	2.8 (yn cynnwys 0.2 therapydd deintyddol)	Staff arall sy'n gweithio ar raglen cartrefi gofal a gyllidir gan y bwrdd iechyd .
Caerdydd a'r Fro/Cwm Taf (GDC ar y cyd)	1.32	Dim
Hywel Dda	0.8	Yn cael eu cefnogi gan staff arall hybu iechyd y geg y GDC
Powys	0.2 (Therapydd deintyddol)	Yn cael eu cefnogi gan Staff arall y GDC

*Mae'r holl staff yn addysgwyr iechyd y geg/iechyd deintyddol oni ddywedir fel arall.

2.3 .Mae cyllid ar gyfer y rhaglen yn caniatáu i'r gwasanaeth deintyddol cymunedol gyflogi staff i gynorthwyo i ddarparu'r rhaglen. Yn ystod y flwyddyn bu staff ar absenoldeb salwch tymor hir, ac mae eraill wedi symud i swyddi newydd. Yn ABM symudodd yr unig aelod o staff oedd yn cyflawni'r rhaglen i rôl newydd yn Chwefror 2018 ac nid oes neb wedi cymryd ei lle hyd yma. O dan yr amgylchiadau hyn mae'r rhaglen ym methu â symud ymlaen oni bai bod y Bwrdd Iechyd wedi gallu nodi staff eraill i gynnal y gwaith. Mae capasiti o ran staff yn effeithio ar gyflwyno'r rhaglen.

3. Adborth

3.1 Cafwyd adborth cadarnhaol gan staff y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol sy'n gweithredu'r rhaglen, staff cartrefi gofal, preswylwyr a gofalwyr:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adborth gan ddirprwy reolwr cartref gofal:

"Ers inni gyflwyno'r system hon mae'n atgoffa'r staff i gyd i sicrhau bod gofal y geg wedi cael ei gyflawni a gallwn weld pa mor dda yr ydym mewn gwirionedd am gynnal gofal y geg!"

Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cwm Taf

Adborth gan Swyddog Deintyddol GDC

"Hoffwn ddweud wrthyfch am Gartref Gofal Glyn Bargoed a'r effaith gadarnhaol y mae'r hyfforddiant yn ei chael yn y cartref gofal hwn yr wyf yn ymweld ag ef. Ers iddynt gael yr hyfforddiant hylendid y geg yn gynharach eleni mae'r staff i gyd wedi bod yn frwdfrydig a chefnogol iawn i driniaeth ddeintyddol a defnyddio cynlluniau iechyd y geg yn nodiadau'r preswylwyr. Mae hylendid ceg y preswylwyr yn dda iawn ac wedi gwella ers yr hyfforddiant.

Yn gyffredinol, mae Rheolwyr cartrefi gofal yn fwy na chroesawus ac yn awyddus i gymryd rhan yn y rhaglen ac mae'r adborth gan staff cartrefi gofal, yn ogystal â'n staff ni ein hunain, yn gadarnhaol iawn ar y cyfan."

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Roedd ymweliad â chartrefi gofal yn ystod Mis Gweithredu Canser y Geg yn neilltuo! o foddhaol pan wnaeth nifer o breswylwyr sylwadau bod eu dannedd gosod yn cael eu glanhau'n llawer gwell ers i'r rhaglen ddechrau. Dywedent fod eu cegau yn teimlo'n 'fwy ffres a glân' ac roeddent yn hapus i wenu ar gyfer lluniau.

Mae ein Harbenigwr mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig wedi cael ei chalonogi gan ymdrechion ein staff. Yn dilyn ymweliadau cartref diweddar dywedai fod gwaith papur cysylltiedig ag iechyd y geg wedi ei drefnu'n well ac mae hi hefyd wedi gweld atgyfeiriadau at ein gwasanaeth ni wedi eu hysgrifennu'n dda o gymharu ag o'r blaen.

4. Effaith y rhaglen



4.1 Fel gydag ymyriadau gofal iechyd eraill gall mesur y canlyniadau fod yn her. Gwyddom nad yw hyfforddi staff cartrefi gofal ar ei ben ei hun yn gwella iechyd y geg fel y mae archwiliadau Hanfodion Gofal a chylchgronau a gyhoeddir yn dangos, ac felly mae'r rhaglen cartrefi gofal bresennol yn mynd yn llawer pellach na hyfforddiant staff yn unig. Hyd yn hyn (ac yn unol â gofynion WHC ar gyfer Sicrwydd, Monitro a Gwerthuso) mae'r GDC a chartrefi gofal yn asesu cydymffurfiaid â phroses (fel sy'n digwydd gyda rhaglenni gwella ansawdd eraill) a safonau.

4.2 Er bod asesiad clinigol ar y geg i breswylwyr "cyn ac ar ôl" y rhaglen wedi cael ei ystyried, mae uwch glinigwyr wedi sôn am anawsterau os byddwn yn gofynnwn i arweinwyr y rhaglen adolygu glanweithdra cegau pobl hŷn bregus sydd â diffyg galluedd (ar ben a thu hwnt i'r broses sy'n ofynnol dan y rhaglen).

4.3 Mae'r effaith hyd yma yn cynnwys:

- Mae'r rhaglen yn cyrraedd y cwbl ond un o safonau ansawdd NICE a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar [hybu iechyd y geg mewn cartrefi gofal](#) ac mae'r Grŵp Gweithredu yn mynd i'r afael â hynny drwy ddatblygu ffordd uniongyrchol i gasglu adborth gan breswylwyr, staff cartrefi gofal a gofalwyr.
- Adborth a gwerthusiad cadarnhaol o'r hyfforddiant a ddarperir, a defnydd eang o'r adnoddau hyfforddi Cymru gyfan, yn enwedig *Llawlyfr Gwella Gofal y Geg*.

Enghreifftiau o newid gwybodaeth cyn ac ar ôl hyfforddiant.



c. Awgryma adroddiadau anecdotaidd gan staff cartrefi gofal fod preswylwyr yn cael llai o heintiau ar y frest, a bod achosion o lindag y geg wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r rhaglen. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata manwl gywir i gadarnhau hyn, ond mae tîm Mil o Fywydau yn ystyried a ellir datblygu system casglu data syml.

ch. Mae gwasanaeth deintyddol cymunedol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn ddiweddar wedi gwella eu system sefydledig o asesu iechyd y geg i gynnwys defnyddio mynegai safonol i asesu glanweithdra'r geg. Mae'r canlyniadau cynnar yn awgrymu bod y mynegai yn syml ac yn gyflym i'w ddefnyddio ac yn ddibynadwy. Os gwelir bod hyn yn ddefnyddiol efallai y bydd yn cyfrannu at asesu a yw y rhaglen yn arwain at lefelau mesuradwy o welliant mewn glendid.

d. Straeon ac adborth gan breswylwyr, staff cartrefi gofal a staff gwasanaeth deintyddol cymunedol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Sylw gan Ofalwr

“Byddaf yn fwy hyderus a gwyliadwrus wrth lanhau dannedd preswylwyr. Rydw i'n teimlo'n fwy gwybodys yn awr.”

Deintydd Cymunedol

“Euthum i weld claf yr oedd gofal ei geg wedi gwella'n sylweddol; roedd y nyrs wedi cymryd meddiant o ofal ceg y preswilydd! Dyna newid rhyfeddol yn y sefyllfa”

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Addysgwr Iechyd Deintyddol

“Ymwelais â dyn oedd yn gaeth i'w wely ond â galluedd. Adroddai gofawyr fod ei ddeintgig yn gwaedu pan oeddent yn brwsio'i ddannedd ac na allai agor ei geg yn ddigon llydan iddynt lanhau ei ddannedd. Dangosais dechnegau brwsio dannedd defnyddiol a gwelais fod ei dafod, ei fochau a thop ei geg wedi eu gorchuddio. Llwyddais i'w atgyfeirio at y Deintydd Cymunedol a rhoi mwy o gyngor ynghylch gofal y geg.”

dd. Digwyddiadau Astudio

Cynhaliodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ddigwyddiad dysgu ar gyfer cartrefi gofal ym mis Mawrth 2018 a ariennid ac a gefnogid gan Uned Gwella Mil o Fywydau. Roedd y digwyddiad yn defnyddio dull amlasiantaethol gyda mewnbwn gan therapi lleferydd ac iaith a mewnbwn dietegol yn ogystal â chyflwyniadau ar ofal y geg. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da gydag oddeutu 60 o bobl yn bresennol.

Roedd yr adborth a dderbyniwyd ar ôl y digwyddiad yn gadarnhaol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

“Canfu staff (y cartref gofal) y digwyddiad dysgu yn ddiddorol a buddiol iawn. Rydym wedi penodi ein Hyrwyddwr Gofal y Geg yn barod.”

Cynhaliwyd digwyddiadau astudio hefyd ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda a chawsant dderbyniad da.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

“... arweiniodd rhwydweithio yn y digwyddiad hwn i'r Addysgwr Iechyd Deintyddol gael ei wahodd i roi cyflwyniad mewn diwrnod hyfforddiant Lleferydd ac Iaith i Ofalwyr, diwrnod hyfforddiant Diwedd Oes, digwyddiad hyfforddi staff ar gyfer timau Ymarfer a Datblygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.”

Mae digwyddiad wedi ei gynllunio ym Mhowys – mae Hyrwyddwr Iechyd y Geg brwdfrydig wrth ei fodd i fod yn cyflwyno ei brofiadau yn y digwyddiad a rhannu sut mae rôl Hyrwyddwr Iechyd y Geg wedi gwneud iddo deimlo'n “aelod gwerthfawr o'i dîm ac wedi rhoi hunanhyder iddo nad oedd wedi ei brofi o'r blaen”.

5. Enghreifftiau o Ymarfer Da / Arloesol

5.1 Fel gyda Chynllun Gwên, mae rhaglen Gwên am Byth i raddau helaeth yn cael ei harwain a'i chyflawni gan Weithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol, yn unol â gofaliachyd darbodus. Mae'r rhaglen wedi ei hintegreiddio i mewn i Gynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg ac mae cydweithio effeithiol ar draws y byrddau iechyd.

5.2 Mae enghreifftiau pellach wedi dod i'r amlwg eleni

- Offeryn Sicrhau Ansawdd yn cael ei ddatblygu a'i brofi.
- Mae offeryn Sicrhau Ansawdd wedi cael ei ddatblygu a'i brofi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth deintyddol cymunedol yn gweithio gyda Mil o Fwyddau i addasu hwn ar gyfer ei ddefnyddio fel adnodd ar gyfer Cymru gyfan.
- Pecyn cynefino ar gyfer staff newydd.
- Mewnbyn i Ddiwrnodiau Teulu/Gofalwyr cartref gofal.
- Effaith gadarnhaol ar staff cartrefi gofal sy'n ymgysylltu â'r rhaglen.
- Mae staff cartrefi gofal yn dechrau atgyfeirio preswylwyr yn briodol at y tîm deintyddol yn hytrach nag at y meddyg teulu.
- Integreiddio gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill (e.e. mewnbyn i ddigwyddiad astudio dietegwyr) a chydgyssylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- Digwyddiadau astudio lleol wedi eu cynnal yn Aneurin Bevan, Gogledd Cymru a Hywel Dda gydag un wedi ei gynllunio ym Mhowys ym mis Medi 2018. (Trefnodd Caerdydd a'r Fro ddigwyddiad astudio ond cafodd ei ganslo gan na ellid rhyddhau digon o staff cartrefi gofal o'u dyletswyddau i fod yn bresennol).
- Mae staff cartrefi gofal yn cael eu mentora a chael “ffrind” nes eu bod yn hyderus i asesu preswylwyr a darparu gofal.
- Mae staff cartrefi gofal yn gwneud dewisiadau gwell o ran nwyddau (e.e. maint brws dannedd, pâst priodol) a brwsio dannedd gosod.
- Mae ffurflen atgyfeirio safonol gwasanaeth deintyddol cymunedol Gogledd Cymru ar gyfer cartrefi *Gwên am Byth* yn cael ei threialu yng Ngwynedd. Nododd adolygiad 165 o atgyfeiriadau; 59 o gleifion mewn poen, 56 o broblemau dannedd gosod.

6 Newid agweddau a Gwella Ymarfer

6.1 Mae adroddiadau GDC yn disgrifio sut mae staff cartrefi gofal yn ymateb i'r rhaglen:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Ar y cyfan, bu gwelliant yn bendant yn agwedd cartrefi gofal at ofal y geg a'u diddordeb mewn gwneud hyn yn dda. Cafwyd gwaith tîm ardderchog mewn cartrefi gofal dros y 12 mis diwethaf, yn enwedig gydag aseswyr nyrsio a monitro contractau wrth ymdrin â chartrefi gofal anodd, sydd wedi cael trafferth i ymgysylltu. Ar y dechrau, bydd ysbryd y staff yn negyddol iawn ynghylch gofal y geg, ond bydd hyn yn newid pan fydd hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno. Mae pobl yn fwy ymwybodol o ofal y geg yn awr ac mae'r staff yn sicr yn gwerthfawrogi ei bwysigrwydd.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae'n ymddangos bod gan y Cartrefi sy'n cymryd rhan well dealltwriaeth yn awr o'r ffaith fod ffocws y rhaglen ar eu harferion gofal ceg dyddiol, yn hytrach nag ar ein hymyriadau deintyddol adweithiol, gydag un cartref yn arddangos poster 'Mae i fyny i ni' yn eu hystafelloedd staff a hyd yn oed toiledau'r staff yn tynnu sylw at y ffaith allweddol hon!

Cyn i'r sesiynau hyfforddi gychwyn, byddwn yn annog trafodaethau anffurfiol byrion ynghylch arferion gofal y geg presennol a barn onest ynghylch ei gyflawni. Byddwn yn aml yn clywed bod staff yn gweld glanhau ceg yn 'anodd', 'anymunol', 'ddim mor bwysig â hynny', ac nad yw'n rhan hanfodol o ofal am breswylwyr. Ar ddiwedd sesiynau hyfforddiant, mae ffurflenni adborth yn aml yn tynnu sylw at syndod staff gofal wrth sylweddoli pam mae gofal y geg yn hanfodol i iechyd yn gyffredinol, yn ogystal ag iechyd y geg, ac yn gydran allweddol o ofal nyrsio.

Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cwm Taf

Ar y dechrau mae staff yn bryderus ac yn amharod i dderbyn gwaith papur newydd gan ei fod yn ymddangos yn gymhleth, er eu bod, ar ôl hyfforddiant gan yr Hyrwyddwr, yn hyderus ac yn hapus i'w weithredu, ac yn gallu gweld y buddion sy'n dod yn ei sgil i ofal cyffredinol preswylwyr.

Wrth inni ymweld â chartrefi gofal i gyflwyno hyfforddiant, rydym wedi sylwi ar welliant yn agweddau'r staff o ran eu hylendid ceg hwy eu hunain ac eiddo'r preswylwyr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae ymweliadau Sicrhau Ansawdd wedi bod yn amhrisiadwy, gan roi cyfle i gefnogi'r hyrwyddwyr, archwilio dogfennaeth a derbyn adborth. Mae'r staff yn ymroi i sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer gofal y geg ac yn ceisio cael rhagnodiadau ar gyfer past dannedd Duraphat lle mae'r cynllun gofal yn argymhell hynny.

7. Rhwystrau ar ffordd Gweithredu

7.1 Nodwyd rhwystrau ar ffordd gweithredu ar y dechrau ac mae Staff GDC wedi gweithio gydag aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol, arweinwyr nyrsio ac Arolygiaeth Gofal Cymru i nodi ffyrdd o oresgyn rhwystrau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, maent yn parhau yn her ar ffordd cyflawni:

- gwaith sifft a salwch staff;
- staff sydd ond yn gallu siarad ychydig o Saesneg;
- cyfraddau uchel o drosiant staff;
- y gred y bydd y broses yn feichus neu'n cael ei defnyddio fel offeryn rheoli perfformiad;
- canslo sesiynau hyfforddi ar y funud olaf;
- dim digon o amser i gyflawni gofal y geg effeithiol i breswylwyr ag ymddygiad heriol;
- rhennir rhestrau adnoddau gofal y geg ond weithiau mae cartrefi gofal yn methu â phrynu adnoddau hanfodol nad ydynt wedi eu rhagnodi megis past dannedd nad yw'n cynhyrchu llawer o ewyn;
- casglu data – nid yw staff mewn cartrefi gofal bob amser yn deall pwysigrwydd casglu data er gwaethaf derbyn eglurhad droeon, e.e. cofnodion hyfforddiant: mae Rheolwyr yn awgrymu bod staff cartrefi gofal wedi derbyn hyfforddiant cynefino neu hyfforddiant mewn swydd ond yn aml nid yw hyn wedi ei gofnodi.

8. Y capasiti i gyflawni ac ehangu nifer y cartrefi sy'n cymryd rhan

8.1 Nodai adroddiad y llynedd *“Rydym yn rhesymol yn disgwyl y bydd oddeutu 40% o gartrefi wedi eu targedu erbyn mis Ebrill 2018”*. Dengys y data fod 34.9% o gartrefi wedi eu targedu yn ystod 2017/18, a bod 34.2% o gartrefi yn cymryd rhan yn y rhaglen naill ai'n llawn neu yn rhannol. Capasiti a niferoedd staff yw'r ffactorau sy'n cyfyngu fwyaf ar ehangu'r rhaglen.

8.2 Soniodd tri GDC am gapasiti staff yn eu hadroddiadau ac mae wedi cael ei godi yn y Grŵp Cyngori Cenedlaethol. Wrth i'r rhaglen ymledaenu mae'n amlwg y bydd capasiti staff GDC yn ffactor allweddol mewn lledaenu'r rhaglen ymhellach.

8.3 Dangosodd profiad o beilot Gwynedd yn Betsi Cadwaladr mai'r nifer fwyaf o gartrefi gofal sy'n bosibl fesul Addysgwr Iechyd Deintyddol yw rhwng 30 a 35 o gartrefi. Caiff y nifer yma ei leihau i weithwyr rhan-amser.

8.4 Mae adroddiadau eraill yn cynnwys :

Abertawe Bro Morgannwg – Mae capasiti'r staff yn y GDC yn gyfyngedig a bydd yn anodd cynnwys y cartrefi gofal hyn os na cheir staff newydd (yn lle aelod o staff sydd wedi symud i swydd newydd) a buddsoddiad pellach i gefnogi cyflawni'r rhaglen.

Caerdydd a'r Fro / Cwm Taf – *“Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn mwy o bryderon ynghylch hylendid ceg gwael mewn cartrefi gofal gan GDC. Er bod hyn yn dangos cyfathrebu cadarnhaol rhwng staff GDC a Gwên Am*

Byth, yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau staffio, ni allwn bob amser ymateb i'r pryderon hyn mor fuan ag yr hoffem."

Aneurin Bevan - *"Rydym yn gweld y momentwm yn cynyddu i fanteisio ar y rhaglen gyda llawer o reolwyr cartrefi gofal yn awyddus iawn ac yn gofyn am hyfforddiant a chymorth ynghylch gofal y geg. Mae rheolwyr cartrefi gofal a staff yn ymddiddori ac yn gwirfoddoli i ddod yn rhan o'r rhaglen gwella gofal y geg."*

8.5 Efallai y bydd angen i fyrddau iechyd adolygu eu buddsoddiad mewn rhaglenni iechyd y geg os yw'r rhaglen cartrefi gofal i gael ei chynnig i fwy o gartrefi.

Mae'r gwasanaethau deintyddol cymunedol yn dweud bod y rhaglen yn annhebygol o gyrraedd mwy na 45% o gartrefi gofal yn ystod y cyfnod o 2018 i 2019 a thu hwnt os bydd capasiti'r staff yn parhau fel y mae.

9. Amserlen ar gyfer cyflawni

9.1 Nododd y WHC/2015/001 amserlen oedd yn gyson â'r Cynllun Iechyd y Geg Cenedlaethol, 2013 – 2018 (NOHP). *"Nid ydym yn disgwyl i'r holl gartrefi gofal weithredu'r rhaglen ar unwaith, ond dylai'r holl gartrefi gofal fod yn cymryd rhan erbyn 2018 yn unol â chyflawniad yr LOHP gan fyrddau iechyd."*

9.2 Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd rydym wedi ymestyn yr amserlen i 2020. Awgryma profiad y 3 blynedd gyntaf nad yw'r amserlen estynedig hon hyd yn oed yn realistig ar gyfer y gwaith cymhleth ac anodd hwn, yn enwedig yng ngoleuni sylwadau am gapasiti staff fel y nodwyd uchod. Efallai y bydd angen ymestyn yr amserlen ymhellach hyd 2021, er y bydd capasiti staff yn parhau i gael effaith ar yr hyn a gyflawnir.

10. Y Camau Nesaf

10.1 Ar ddechrau'r rhaglen sefydlwyd gwefan sy'n cael ei noddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi cyflawni a rhannu arferion da a'r hyn sy'n cael ei ddysgu.

<http://www.wales.nhs.uk/improvingoralhealthforolderpeoplelivingincarehomesinwales>

Mae'r wefan hon hefyd yn cynnwys Canllaw 'Sut i ...'.

10.2 Ar hyn o bryd, nid yw'r wefan ar gael ond yn Saesneg, a pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru yw bod rhaid iddi fod ar gael yn ddwyieithog. Rhoddir ystyriaeth i'r modd y gellir cyflawni hyn. Yn absenoldeb yr adnoddau i ddarparu cyfieithiad nid ychwanegwyd at y wefan yn ddiweddar.

- Yn 2017 cyflwynodd Gofal Cymdeithasol Cymru Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Defnyddir hwn fel rhan o'r hyfforddiant ar gyfer staff cartrefi gofal. Mae cydweithwyr yn y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol wedi croesawu hyn ac yn falch i nodi ei fod yn cynnwys adran ar ofal y geg. Bydd y Grŵp Gweithredu yn adolygu'r Fframwaith i weld sut y gall arweinyddwyr y rhaglen gefnogi staff cartrefi gofal i gyflawni'r cymwyseddau craidd.

- Ffurflenni asesu electronig. Tra roeddent yn cael eu datblygu a'u profi roedd yr offer asesu a'r cynlluniau gofal ar bapur. Mae unrhyw gostau argraffu lliw yn cael eu cadw i lawr i'r eithaf (yn dilyn adborth gan gartrefi gofal). Mae rhai cartrefi yn defnyddio systemau electronig ac wedi gosod y dogfennau ar y rheiny. Fodd bynnag, nid oes systemau electronig o'r un math yn cael eu defnyddio ac felly mae arweinwyr y rhaglen yn ystyried sut y gellir integreiddio'r ffurflenni i'r systemau amrywiol.
- Mae cartrefi gofal yn defnyddio staff asiantaeth – mae arweinwyr y rhaglen yn ystyried datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer asiantaethau fel y bydd gan eu staff ddealltwriaeth o raglen iechyd y geg.
- Mae'r rhaglen yn cydymffurfio â'r cyfan ond un o'r Safonau Ansawdd a amlinellwyd yng nghanllaw NICE - *Oral health in care homes: Quality standard QS151* (Mehefin 2017). <https://www.nice.org.uk/guidance/QS151> Mae Grŵp Gweithredu'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r 'bwlch' hwn drwy ddatblygu a phrofi system uniongyrchol i alluogi preswylwyr a gofalcwyr i roi adborth ar ansawdd y cymorth y maent yn ei dderbyn gyda gofal y geg.
- Arolygiadau allanol a chymorth gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae arolygwyr yn nodi gofal y geg yn gynyddol a gobeithiwn y bydd hyn yn parhau i yrru safonau i fyny.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae gennym gysylltiadau cryf gyda thimau contractau a monitro yr awdurdod lleol a byddwn yn cyfathrebu'n gyson ynghylch rhaglen gofal y geg. Mae'r swyddogion monitro yn sicrhau y canolbwyntir ar ofal y geg yn ystod arolygiadau. Yng nghontract newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer cartrefi gofal bydd adran ynghylch cyflawni gofal y geg i'r holl breswylwyr.

Dirprwy Reolwr Cartref Gofal

"Mae ein swyddogion monitro yn gosod pwyslais mawr ar ofal y geg; maent yn gryf iawn ar ofa y geg ac mae'n bendant yn derbyn mwy o sylw".

Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cwm Taf

Cartref Gofal Pantanas – Nododd AGC 'gofal y geg da iawn' ar y data misol. Glyn Bargoed – Mae Contractau'r Awdurdod Lleol yn 'falch bod staff wedi derbyn hyfforddiant iechyd y geg'. Roedd hefyd yn sôn bod iechyd y geg yn awr yn bwnc newydd ar gyfer arolygiadau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mae un cartref gofal wedi bod yn anodd i ymgysylltu ag ef. Fodd bynnag, mae ymgysylltu llawn ag AGC a'r aseswr nyrsio wedi arwain at gynnydd da.

11. Arddangos y rhaglen

11.1 Roedd Prif Weinidog Cymru yn bresennol mewn diwrnod Teulu a Gofalwyr cartref gofal a chyfarfu ag arweinydd rhaglen gofal y geg wrth ei “standin”, a gwelodd y wybodaeth oedd ar gael i deuluoedd a gofalwyr.



Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, yn bresennol mewn diwrnod Teulu a Gofalwyr ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg

11.2 Ym mis Awst ymwelodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â chartref gofal Brodawel yng Nghaerffili i glywed am y rhaglen yn bersonol, a chyfarfu â staff cartrefi gofal sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a thîm cefnogi'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.



Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyfarfod ag aelodau tîm y GDC yn Aneurin Bevan.

11.3 Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cynhyrchwyd erthygl ar Gwên am Byth mewn cydweithrediad â thîm cyfathrebu'r bwrdd iechyd a chartref yn Sir Ddinbych yn ystod Mis Gwên Cenedlaethol 2017. Cyrhaeddodd hon y papurau newydd lleol a nifer o gylchgronau i Ofalwyr a'r 'Nursing Times'.

11.4 Ymhellach draw, bu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o Japan a Gwlad Thai yn cysylltu â thîm y rhaglen gyda chais i ymweld â Chymru i ddysgu mwy am y rhaglen. Yng Ngwlad Thai mae'r Athro Pat Srisilapanan wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth y wlad i sefydlu hyfforddiant ôl-raddedig mewn Gerodontoleg (arbenigedd newydd yng Ngwlad Thai). Ymwelodd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac ers hynny mae wedi gwneud cais am ddarlith ar-lein i fyfyrwyr yng Ngwlad Thai o Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru (WOHIU).

11.5 Ymwelodd tîm o 4 o bobl o Japan. Gwelsant raglen gofal y geg mewn ysbyty ac uned fariatrig a gwasanaethau i bobl ag anghenion arbennig yn ogystal â rhaglen y cartrefi gofal. Yr uchafbwynt oedd ymweliad â chartref gofal: mae'r cartref yn gofalu'n bennaf am bobl sy'n byw â dementia datblygedig, ond roedd gan un preswylydd alluedd a chydysniodd yn rhwydd i gyfarfod â'r ymwelwyr o Japan. Roedd wedi cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Tokyo ac roedd ei wal wedi ei haddurno â nifer o bethau i gofio am yr achlysur. Mae gan yr ymwelwyr a'r preswylydd yn awr nifer o luniau i gofio am yr ymweliad!

Diolchiadau

Hoffai llywodraeth Cymru gydnabod:

- Arweinydd clinigol 'Caring for Smiles' am ganiatâd i dynnu ar eu hadnodd hyfforddiant.
- Gwellu gwasanaeth Mil o Fywydau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am gefnogi'r digwyddiadau astudio.
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am ganiatâd i ddefnyddio *Gwên am Byth*.
- Ymrwymiad a sgiliau pawb sy'n cyflawni'r rhaglen hon, yn enwedig staff cartrefi gofal, y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, timau nyrsio byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill.
- Maria Morgan, WOHIU, am goladu a chyflwyno data a chefnogi'r broses ddilysu.
- Ilona Johnson, Uwch Ddarlithydd Clinigol ac Ymgynghorydd Anrhydeddus mewn Iechyd Cyhoeddus Deintyddol, Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd, am ei chyngor a'i chymorth gyda'r broses ddilysu.
- Aelodau'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol a'r Grwpiau Gweithredu Lleol.

Lisa Howells
Cadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol


Atodiad 1`

TABLAU A FFIGURAU MONITRO CARTREFI GOFAL 2017/18

Tabl 1 TARGEDU

O'r cartrefi a dargedwyd faint sydd yn:									
BILI	Cyfanswm nifer y cartrefi yn y BILI ar y 1 st o Ebrill 2015	Cyfanswm nifer y cartrefi a dargedwyd ar gyfer y rhaglen	Cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar y rhaglen	Cymryd rhan yn rhannol	Dim yn cymryd rhan eto	Penderfynu tynnu allan o'r rhaglen	% a dargedwyd (Enwadur= yr holl gartrefi)	% yn Cymryd rhan yn llawn ac yn rhannol fel canran o'r HOLL gartrefi	% yn Cymryd rhan yn llawn ac yn rhannol fel canran o'r cartrefi a DARGEDWYD
Abertawe Bro Morgannwg	104	37	26	11	67		35.6	35.6	100.0
Aneurin Bevan	101	49	21	27	53	1	48.5	47.5	98.0
Betsi Cadwaladr	208	62	54	8	146		29.8	29.8	100.0
Caerdydd a'r Fro	61	32	29	3	29		52.5	52.5	100.0
Cwm Taf	50	22	21	0	29		44.0	42.0	95.5
Hywel Dda	97	18	14	4	79		18.6	18.6	100.0
Powys	36	9	5	2	29	2	25.0	19.4	77.8
CYMRU	657	229	170	55	432	3	34.9	34.2	98.3


Ffigur 1 Nifer y cartrefi gofal i bobl hŷn a'r nifer a dargedwyd fesul bwrdd iechyd ac yng Nghymru 2017/18




Tabl 2 Y cartrefi oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen o 2015/16 i 2017/18

	Yn llawn			Yn rhannol			Dim eto			Wedi tynnu'n ôl		
	2016	2017	2018	2016	2017	2018	2016	2017	2018	2016	2017	2018
Abertawe Bro Morgannwg	6	15	26	0	0	11	0	0	67	0	0	
Aneurin Bevan	0	17	21	52	0	27	0	0	53	0	0	1
Betsi Cadwaladr	8	19	54	0	0	8	0	0	146	0	0	
Caerdydd a'r Fro		0	29	18	21	3	2	0	29	0	0	
Cwm Taf		0	21	14	18	0		0	29	0	0	
Hywel Dda	2	12	14	0	4	4	0	0	79	0	0	
Powys	1	4	5	2	0	2	3	2	29	0	1	2
CYMRU	17	67	170	86	43	55	5	2	432	0	1	3

Ffigur 2 y cartrefi oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen, yn ôl lefel eu cyfranogaeth, 2017/18



Ffigur 3 Nifer y cartrefi oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen ar draws Cymru, 2015/16 – 2017/18 (yn ôl graddau cyfranogaeth)



Tabl 3 Cartrefi gofal oedd â pholisïau gofal y geg diweddar a'r rheiny oedd yn gallu enwi gwasanaethau deintyddol lleol

			Nifer		Canran seiliedig ar yr holl gartrefi		Canran seiliedig ar y cartrefi a dargedwyd	
	Cyfanswm nifer y cartrefi ar y 1 ^{af} o Ebrill 2015	Nifer a dargedwyd	Nifer â pholisï gofal y geg diweddar	Nifer y cartrefi a all nodi eu gwasanaethau deintyddol lleol	% sydd â pholisï gofal y geg diweddar	% y cartrefi a all nodi eu gwasanaethau deintyddol lleol	% sydd â pholisï gofal y geg diweddar	% y cartrefi a all nodi eu gwasanaethau deintyddol lleol
Abertawe Bro Morgannwg	104	37	26	23	25%	22%	70%	62%
Aneurin Bevan	101	49	46	49	46%	49%	94%	100%
Betsi Cadwaladr	208	62	62	62	30%	30%	100%	100%
Caerdydd a'r Fro	61	29	29	29	48%	48%	100%	100%
Cwm Taf	50	22	22	22	44%	44%	100%	100%
Hywel Dda	97	18	16	18	16%	19%	89%	100%
Powys	36	9	7	7	19%	19%	78%	78%
CYMRU	657	226	208	210	32%	32%	92%	93%

Tabl 4 Arolygiadau

BILI	Faint o gartrefi gafodd arolygiad allanol neu adolygiad yn ystod y cyfnod adrodd sydd wedi amlygu gofal y geg da/ardderchog?	Faint o gartrefi gafodd arolygiad allanol neu adolygiad yn ystod y cyfnod adrodd sydd wedi amlygu gofal y geg annigonol
Abertawe Bro Morgannwg	6	1
Aneurin Bevan	2	2
Betsi Cadwaladr	0	0
Caerdydd a'r Fro	0	0
Cwm Taf	2	0
Hywel Dda	6	0
Powys	0	0
CYMRU	16	3

STAFF CARTREFI GOFAL

Tabl 5 Hyfforddiant

	Nifer y staff iechyd a gofal oedd yn gymwys ar gyfer hyfforddiant	Nifer Hyrwyddwyr Iechyd y Geg a hyfforddwyd (gan y GDC)	Nifer y staff iechyd a gofal a hyfforddwyd gan y GDC (heb gynnwys Hyrwyddwyr Iechyd y Geg)	Nifer y staff a hyfforddwyd yn uniongyrchol gan Hyrwyddwr Iechyd y Geg	Nifer y sesiynau hyfforddi a roddwyd i staff cartrefi gofal gan y tîm deintyddol
Abertawe Bro Morgannwg	1026	174	434	172	84
Aneurin Bevan	1514	32	808	0	91
Betsi Cadwaladr	1654	146	450	0	157
Caerdydd a'r Fro	1234	3	633	0	14
Cwm Taf	989	59	779	0	57
Hywel Dda	591	62	299	146	73
Powys	165	11	107	10	13
CYMRU - 2018	7173	487	3510	328	489
CYMRU - 2017	4600	209	1892	73	290
CYMRU - 2016	4020	50	1338	0	121

Ffigur 4 Hyfforddiant yn 2017/18 o gymharu â blynyddoedd blaenorol




PRESWYLLWYR CARTREFI GOFAL

Tabl 6 Asesiadau a chynlluniau gofal Preswylwyr Cartrefi Gofal

	PRESWYLLWYR CARTREFI GOFAL mewn cartrefi oedd yn cyfranogi'n llawn			
BILI	Cyfanswm y preswylwyr	Cyfanswm y preswylwyr sydd wedi cael asesiad risg)	Cyfanswm y preswylwyr sydd â chynllun Gofal y Geg	Cyfanswm y preswylwyr y mae eu cynllun Gofal y Geg wedi cael ei gyflawni
Abertawe Bro Morgannwg	1165	1130	1130	1130
Aneurin Bevan	618	587	587	587
Betsi Cadwaladr	1303	492	492	492
Caerdydd a'r Fro	1348	25	25	25
Cwm Taf	829	328	328	328
Hywel Dda	546	472	507	507
Powys	174	142	142	142
CYMRU - 2018	5983	3176	3211	3211
CYMRU - 2017	4082	1308	1349	1349
CYMRU - 2016	3723	110	133	133

Ffigur 5 Asesiadau a chynlluniau gofal Preswylwyr Cartrefi Gofal



Tabl 7 Gwybodaeth Ychwanegol, 2017-18

BILI	Cysylltwyd â'r cartref gofal dros y ffôn, drwy'r e-bost neu gyfarfod cychwynnol i drafod y rhaglen sydd wedi ei chynnal	Cofnodwch faint o gartrefi gofal sydd wedi gofyn am hyfforddiant yn unig
Abertawe Bro Morgannwg	8	3
Aneurin Bevan	8	19
Betsi Cadwaladr	8	0
Caerdydd a'r Fro	3	0
Cwm Taf	0	0
Hywel Dda	4	0
Powys	2	0
CYMRU	33	22

Adroddiad Blynyddol am 2016- 2017

<https://gov.wales/docs/phhs/publications/170816oral-healthcy.pdf>

Mae'r gwaith yn 'cael ei arwain gan staff y cartrefi gofal gyda chefnogaeth timau deintyddol y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (GDC)'. Er mai cyfrifoldeb y gwasanaeth deintyddol cymunedol yn bennaf yw darparu'r rhaglen, dros y flwyddyn bu mwy o gyfraniad gan staff y cartrefi gofal ac aelodau'r Grwpiau Gweithredu Lleol yn siapio'r dull cyflenwi lleol a dylanwadu ar agweddau ar y rhaglen.

Enw'r rhaglen, logo ac adnoddau

Ymgwymerwyd ag amrywiaeth eang o waith ar draws Cymru cyn WHC/2015/001. Er mai tameidiog ydoedd a heb fod yn seiliedig ar ddull cyson Cymru gyfan, roedd y gweithgaredd yn y gorffennol yn cynnig gwersi gwerthfawr ar gyfer y rhaglen bresennol. At hynny, mae Cymru wedi manteisio ar brofiad o'r rhaglen *Caring for Smiles* yn yr Alban lle roedd eu clinigwr arweiniol yn pwysleisio gwerth "brand" (enw), logo ar gyfer y rhaglen a'r defnydd o adnodd addysgu seiliedig ar dystiolaeth ar draws y wlad.

Gan ddilyn esiampl yr Alban, ymgynghorodd arweinwyr y rhaglen yng Nghymru ynghylch enw a logo ar gyfer Cymru. Roedd rhaglen Gwên am Byth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eisoes wedi ymsefydlu'n dda ac yn adnabyddus, a rhoddodd BIPBC ganiatâd i'r enw gael ei fabwysiadu ar gyfer y rhaglen Cymru gyfan. Cafodd enw a logo'r rhaglen eu mabwysiadu'n gyflym ledled Cymru.

Nid yw *Caring for Smiles* yn cynnwys holl elfennau Gwên am Byth: rhaglen i hyfforddi staff cartrefi gofal ydyw yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn defnyddio un adnodd hyfforddi ar gyfer yr Alban i gyd sydd wedi bod yn werthfawr iawn i staff cartrefi gofal. Fe wnaeth *Caring for Smiles* yn hael iawn adael i Gwên am Byth ddefnyddio eu hadnodd yn sail i adnodd tebyg ar gyfer Cymru. Mae'r Grŵp Gweithredu wrthi'n datblygu'r adnodd Cymru gyfan gan ddefnyddio offer sefydledig a seiliedig ar dystiolaeth, sydd eisoes yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn ogystal â *Caring for Smiles*.

Defnyddio dull 'Unwaith i Gymru' a dilysu'r offeryn asesu

Beth amser ar ôl i'r rhaglen gychwyn, gofynnodd cynrychiolwyr cartrefi gofal am asesiad risg a chynllun gofal ar gyfer Cymru gyfan. Mae llawer o fanteision i'r dull 'Unwaith i Gymru' o weithredu:

- Mae'n cyd-fynd â gofal iechyd darbodus ac yn osgoi dyblygu diangen a dryswch dros "pa ddogfennaeth sy'n gywir".
- Mae'r staff yn gyfarwydd â'r broses pan fyddant yn symud i weithio mewn cartrefi gwahanol.
- Mae'n gwella diogelwch arferion ar gyfer staff Asiantaeth sydd efallai yn gweithio mewn nifer o gartrefi.

- Mae preswylwyr yn derbyn gofal cyson os byddant yn symud i gartref gwahanol yng Nghymru.
- Gellir peri bod hyfforddiant yng Nghymru yn cyd-fynd â'r broses asesu risg.
- Mae'n cefnogi dull cyson o fonitro contractau.
- Mae'r ddogfennaeth Cymru gyfan yn gymorth i godi safonau gofal.

Dylai'r rhaglen ddefnyddio offeryn dilys i asesu gofal y geg. Ar hyn o bryd nid oes ond un offeryn wedi'i ddilysu ar gael yn rhwydd ar gyfer asesu gofal ceg preswylwyr cartrefi gofal: *Oral Health Assessment Tool* (2009) Sefydliad iechyd a Lles Awstralia). Mae'r offeryn hwn wedi ei gynnwys yng nghanllaw NICE *Oral health for adults in care homes*, Gorffennaf 2016.

Cynhaliwyd cyfnod 1 y broses ddilysu yn ystod 2017. Cafodd offeryn Awstralia ei newid yn dilyn adborth gan staff cartrefi gofal a chafodd ei addasu wrth i gylchoedd PDSA fynd yn eu blaen. Cynhaliwyd proses Delphi gan Brifysgol Caerdydd i nodi elfennau allweddol asesiad y geg a chynllun gofal. Roedd y broses yn cynnwys staff cartrefi gofal a phersonél Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol.

Cwblhawyd cam 2 y broses ddilysu i raddau helaeth yn ystod 2017/18. Datblygwyd proses ffurfiol ac fe'i cyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd a WOHU. Galluogodd hyfforddiant dilynol i nifer fechan o staff gwasanaethau deintyddol cymunedol ymgymryd ag elfennau ymarferol y broses ddilysu. Yn unol â'r broses, cyfwelwyd amrywiaeth eang o weithwyr iechyd proffesiynol (gan gynnwys rhai fydd yn defnyddio'r ffurflen asesu ac eraill sydd â diddordeb mwy cyffredinol gan gynnwys fferylllydd, Therapyddion Lleferydd ac Iaith [SALT] a deintyddion). Bu dadansoddiad o'r canlyniadau yn gymorth i ddatblygu'r fersiwn bresennol o'r offeryn asesu ac mae hwn bellach yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

Bydd defnydd o'r offeryn ar raddfa eang yn caniatáu i staff y gwasanaeth deintyddol cymunedol gasglu adborth mwy cyffredinol gan staff cartrefi gofal i asesu a oes angen addasiadau pellach.

Cartrefi yn defnyddio eu systemau asesu a'u cynlluniau gofal eu hunain

Mae gan rai cartrefi gofal eu systemau asesu eu hunain. Sefydliadau corfforaethol yw'r rhain fel arfer, ac mae gan rai ohonynt gartrefi mewn mannau eraill yn y DU. Yn y cartrefi hyn, bydd y gwasanaeth deintyddol cymunedol yn adolygu'r system asesu er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'r sylfaen o dystiolaeth ac yn arwain at gynllun gofal priodol ar gyfer y preswylwyr. Nid oes llawer o ddiben mewn asesu anghenion gofal y geg ac wedyn methu â sicrhau eu bod yn cael eu bodloni. Rhoddir gwybod i gartrefi os nad yw eu system yn bodloni'r sylfaen o dystiolaeth ac mae rhai wedi addasu eu systemau yn unol â hynny.

Grŵp Cynghori Cenedlaethol

Fel y nodir yn y Cylchlythyr, mae Grŵp Cynghori Cenedlaethol amlddisgyblaethol, aml-broffesiwn (NAG) wedi ei sefydlu i oruchwylio ac arwain cyflawni. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr cartrefi gofal, y proffesiwn deintyddol a phroffesiynau iechyd a gofal eraill. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Y Grŵp Gweithredu (gynt y Grŵp Gorchwyl a Gorffen)

Mae'r grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob gwasanaeth deintyddol cymunedol yng Nghymru. Mae'r grŵp wedi gweithio'n effeithiol i:

- Ddatblygu polisi gofal y geg enghreifftiol ar gyfer cartrefi gofal;
- Cynorthwyo i ddatblygu a dilysu offeryn asesu'r geg a chynllun gofal cysylltiedig;
- Cyngori ynghylch ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau priodol ar gyfer hylendid y geg;
- Datblygu canllawiau ar gynnwys y rhaglenni cynefino a hyfforddiant ar gyfer staff cartrefi gofal a Hyrwyddwyr Gofal y Geg er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ledled Cymru. Gofynnodd cartrefi gofal am becyn cynefino. Datblygwyd hwn i ddechrau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'i brofi wedyn, ei fireinio a'i ailbrofi cyn ei ddosbarthu'n ehangach.

Mae gwaith wedi dechrau ar system adborth syml ar gyfer staff cartrefi gofal, preswylwyr ac aelodau o'r teulu. Mae'r grŵp hefyd yn arwain mewn datblygu'r adnodd hyfforddi Cymru gyfan fel yr ysbrydolwyd gan raglen *Caring for Smiles*. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu argraffu'r adnodd.

Yn unol â'r defnydd o Fethodolegau Gwella Cenedlaethol, rhaid profi'r adnoddau hyn a'u diwygio i sicrhau eu bod yn addas i'r diben cyn eu defnyddio. Nid yw'r gwaith paratoi manwl hwn yn cael ei gyfleu yn y data a ddarperir gan fyrddau iechyd, ond mae'n hanfodol os yw'r rhaglen i gael ei gweithredu'n effeithiol. Mae Grŵp Gweithredu'r Rhaglen wedi arwain datblygiad dogfennaeth Cymru gyfan, gan adeiladu ar y profiad o ddefnyddio'r dogfennau a'r prosesau presennol. Fe'u cefnogwyd gan Arweinwyr Clinigol Ymgynghorol a chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd a WOHU er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r sylfaen o dystiolaeth. Datblygwyd y ddogfennaeth gan ddefnyddio Methodolegau Gwella Cenedlaethol ac roedd angen nifer o gylchoedd o PDSA (cynllunio, gwneud, astudio, gweithredu) cyn i bob parti fod yn fodlon ar y ddogfennaeth. Mewnbwn gan staff cartrefi gofal, rheolwyr a rhai o'r preswylwyr a siapiodd ac a ddylanwadodd yn bennaf ar y ddogfennaeth.

Cyfarwyddir gwaith y grŵp gan y Grŵp Cyngori Cenedlaethol.

Grwpiau Gweithredu Lleol

Roedd WHC 2015 / 001 yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd sefydlu Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) i gynllunio sut i gyflenwi a sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu'n effeithiol. Mae pob Bwrdd Iechyd wedi sefydlu GGLI. Gan adlewyrchu ei faint daearyddol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer pob un o'i 4 prif ardal.

Mae aelodaeth y grwpiau hyn yn gyffredinol yn dilyn yr amlinelliad yn WHC/2015/001 ond mae aelodau eraill wedi cael eu cynnwys sy'n adlewyrchu'r angen am arbenigedd ac arweiniad ychwanegol. Mae enghreifftiau o aelodau ychwanegol yn cynnwys:

- Cynrychiolydd y Pwyllgor Deintyddol Lleol;
- Therapydd Lleferydd ac Iaith;
- Fferyllydd;
- Dietegydd;
- Academydd Deintyddol;
- Amrywiaeth o nyrsys y Bwrdd Iechyd;
- Nyrsys Macmillan, nyrsys dementia, asesydd nyrsio gofal cymhleth
- Y Trydydd Sector
- Uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd; a
- Swyddogion comisiynu'r Awdurdodau Lleol

Mae'r gwasanaethau deintyddol cymunedol yng Nghymru yn darparu gofal yn y cartref i bobl hŷn sy'n gaeth i'r tŷ, a all fod yn y cyfnod 'cyn cartref gofal' neu a all barhau i fyw gyda chymorth yn eu cartrefi eu hunain. Mae Grwpiau Gweithredu Lleol yn dechrau sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail i'r gofal drwy'r rhaglen WHC 2015/001 yn ymestyn i ofal am y garfan hon o bobl.

Adborth gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Mae cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol, gan gefnogi cysylltiadau gweithio agosach gyda rhanddeiliaid, yn enwedig swyddogion monitro contract y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Dietegwyr a Therapyddion Iaith a Lleferydd.